Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Llywodraeth Cymru

# Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2025 i 2029



Mehefin 2025

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Cynllun Cydraddoldeb Strategol a Hawliau Dynol 2025-2029**'.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth beth mae'r holl eiriau glas yn ei feddwl ar **dudalen 33**.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lle mae'r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru** a **Gweinidogion Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

**Ffôn:** 03000628274

**Ebost:** yrisadrancydraddoldebahawliaudynol@llyw.cymru

**Gwefan:** www.llyw.cymru/cynllun-nodau-cydraddoldeb-2025-i-2029

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn Hawdd ei Ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys

Am y cynllun yma ........ 4

Hawliau dynol ........ 5

Cydraddoldeb ........ 9

Ein hamcanion cydraddoldeb cenedlaethol ar gyfer 2024 i 2028 ........ 11

Beth fyddwn yn ei wneud i gyflawni ein nodau ........ 15

Offer i helpu i gyflawni ein nodau ........ 22


Edrych ar ein gwaith ........ 31

Geiriau anodd ........ 33

# Am y cynllun yma

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ni ydy Llywodraeth Cymru.




Dyma ein **Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**.



Rydyn ni eisiau i **gydraddoldeb** a **hawliau** dynol fod yn rhan o bopeth rydyn ni'n ei wneud.




Mae'r cynllun yma yn ein helpu i ddilyn rheolau a dedfau pwysig. Fel Deddf Cydraddoldeb 2010.




Mae hefyd yn dweud beth fyddwn ni'n ei wneud i amddiffyn hawliau dynol.

# Hawliau dynol




**Hawliau dynol ydy'r hawliau sylfaenol sydd gennym ni i gyd. Er enghraifft:**

- Mae gennych yr hawl i siarad a chael eich gwrando.
- Mae gennych yr hawl i gael cefnogaeth i fyw eich bywyd.
- Mae gennych yr hawl i fod yn ddiogel.
- Mae gennych yr hawl i gael eich trin â pharch ym mhobman.



**Mewn bywyd bob dydd, a phan fyddwn ni'n darparu gwasanaethau, mae hyn yn meddwl ein bod ni yn:**

- Rhoi pobl yng nghanol penderfyniadau.
- Gwrando ar beth sy'n bwysig iddyn nhw.
- Rhoi dewis a rheolaeth i bobl.
- Siarad i fyny pan nad ydy hawliau rhywun yn cael eu parchu.

Mae ein **Datganiad Hawliau Dynol** yn cefnogi ac yn amddiffyn hawliau pobl. Mae'n dweud:



- Mae hawliau dynol yn perthyn i bawb.



- Rydyn ni'n addo parchu a diogelu hawliau dynol.



- Fe ddylai pawb yng Nghymru deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.



- Fe ddylai pawb gael rhyddid.



- Fe ddylai pawb gael eu trin yn gyfartal ac yn deg.



- Fe fyddwn ni'n rhoi pobl yn gyntaf i helpu i wneud bywyd yn well - nawr ac yn y dyfodol.


# Ein nodau hawliau dynol




Ein nod ydy amddiffyn hawliau dynol yn ein holl waith.



Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod ein cynlluniau cydraddoldeb yn cefnogi hawliau dynol.



Fe fyddwn ni'n dysgu ac yn gwella trwy weithio gydag eraill.




Fe fyddwn ni'n dilyn deddfau hawliau dynol rhyngwladol.

# Cydraddoldeb



Mae cydraddoldeb yn meddwl trin pawb yn deg. Mae'n meddwl rhoi'r un cyfleoedd i bobl mewn bywyd.





Mae cydraddoldeb yn rhan bwysig o hawliau dynol.



Fe fydd cael cynlluniau cydraddoldeb gwell yn helpu i gefnogi hawliau dynol.



Fe fydd yn gwneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn deg a gyda pharch. Rydyn ni eisiau i bawb yng Nghymru gael cyfle cyfartal.




Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod ein **nodau cydraddoldeb** yn rhan o'n **gwaith hawliau dynol**.

# Ein nodau cydraddoldeb



Ein nod hirdymor ydy bod yn deg i bawb.



Rydyn ni eisiau rhoi'r gorau i **wahaniaethu** a chynnwys pawb.



**Gwahaniaethu** ydy pan fyddwch chi'n cael eich trin yn wael neu'n annheg oherwydd pethau fel eich rhyw, hil, crefydd, anabledd neu hunaniaeth rywiol.

# Ein hamcanion cydraddoldeb cenedlaethol ar gyfer 2024 i 2028



1. **Rydyn ni eisiau i bawb yng Nghymru gael cyfle i wneud yn dda.**



Fe ddylai pawb gael digon o arian, bwyd, a lle diogel i fyw. Mae hyn yn hawl ddynol.




2. **Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod pawb yn gwybod eu hawliau dynol. Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod hawliau dynol yn cael eu diogelu.**



**3. Rydyn ni eisiau i bawb allu defnyddio gwasanaethau cyhoeddus.**



Mae'r rhain yn wasanaethau sy'n cael eu talu gan y Llywodraeth. Er enghraifft, cynghorau lleol, y GIG a thân ac achub.



Mae gan bawb yr hawl i gael cymorth sy'n ateb eu hanghenio.



**4. Fe fyddwn ni'n gwneud Cymru yn rhydd o wahaniaethu, casineb a bwlio.**

Mae **casineb** yn meddwl cael eich trin yn wael oherwydd bod pobl yn meddwl eich bod chi'n wahanol. Er enghraifft, oherwydd anabledd neu hil.



Mae gan bawb yr hawl i fyw heb ofn.



5. **Rydyn ni eisiau i bobl o bob cefndir gael dweud eu dweud. Rydyn ni eisiau eu gweld mewn rolau arweinyddiaeth.**



Mae gan bawb yr hawl i siarad a bod yn rhan o benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.



6. **Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod gan bawb gyfleoedd teg i weithio.**




Rydyn ni eisiau i bobl gael eu trin yn gyfartal yn y gwaith. Rydyn ni eisiau i bawb gael cyflog teg. Er enghraifft, fe ddylai dynion a menywod gael eu talu'r un peth os ydyn nhw'n gwneud yr un gwaith.



**7. Fe fyddwn ni'n diogelu'r amgylchedd.**



Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr ein bod yn deg i bawb wrth weithio ar ein nodau amgylcheddol.



Yr amgylchedd ydy ein planed a lle rydyn ni'n byw. Mae'n cynnwys y tir, y môr, yr awyr, a phopeth sy'n byw ynddo ac arno. Er enghraifft, planhigion, anifeiliaid a physgod.




Mae gan bawb yr hawl i fyw mewn amgylchedd iach a diogel. Mae'n bwysig i'n hiechyd a'n lles.


# Beth fyddwn yn ei wneud i gyflawni ein nodau



Mae angen i bob rhan o Lywodraeth Cymru weithio tuag at y nodau yma.




Mae gennym ni gynlluniau gweithredu sy'n esbonio beth fyddwn yn ei wneud.




Maen nhw'n ein helpu i ganolbwyntio ar y pethau pwysicaf mae angen i ni eu gwneud i gyrraedd ein nodau.



Fe fyddwn ni'n parhau i edrych ar, a gwella ein cynlluniau.



**Mae’r pethau rydyn ni’n canolbwyntio arnyn nhw wedi’u rhestru yma:**

## Anabledd




Mae gan bobl anabl yr un hawliau â phawb arall.



Rydyn ni eisiau bob person anabl yng Nghymru gael eu trin yn gyfartal.



Rydyn ni’n dilyn y **Model Cymdeithasol o Anabledd**.





Mae’r **Model Cymdeithasol** yn dweud nad ydy person yn anabl gan ei gorff na’i wahaniaeth. Mae person yn cael ei wneud yn anabl gan rwystrau.



Mae rhwystrau yn bethau sy’n stopio pobl rhag gwneud rhywbeth neu i gael yr un siawns ag eraill. Mae’n gallu bod yn bethau fel:

- Agweddau annheg
- Adeiladau heb rampiau
- Peidio â chael gwybodaeth hawdd ei ddeall




Yn 2025, fe fyddwn ni’yn rhannu cynllun o’r enw **Cynllun Hawliau Pobl Anabl**.



Fe fydd yn helpu i gael gwared ar y rhwystrau yma ac yn cefnogi pobl anabl i gymryd rhan ym mhob rhan o fywyd.


# Rhywedd



Rhywedd ydy eich syniadau a'ch teimladau personol o fod yn fenywaidd, gwrywaidd, naill na'r llall neu'r ddau.



Ein nod ydy gwneud bywyd yn well ac yn fwy teg i bawb, beth bynnag ydy eu rhyw.




Mae gennym ni gynllun o'r enw [Hyrwyddo Cydraddoldeb Rhywedd]. Nod y cynllun yma ydy gwneud yn siŵr bod pobl o bob rhyw yn cael eu trin yn deg.




Rydyn ni'n gweithio i gyflawni'r cynllun yma.




Y flwyddyn yma, efallai y byddwn ni'n diweddaru'r cynllun i ganolbwyntio ar beth sy'n gweithio orau.

## Hil




Mae gennym ni gynllun o'r enw [Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol].



Nod y cynllun yma ydy gwella bywydau:

- pobl ddu,
- pobl Asiaidd,
- a phobl ethnig leiafrifol. Mae Ething Leiafrifol yn meddwl pobl sydd ddim yn Brydeinig gwyn. Mae hyn yn cynnwys pobl Sipsiwn, Roma a Theithwyr.




Fe wnaeth adroddiad yn 2023 ddangos nad oedd pobl yn teimlo bod y cynllun yma wedi gwella pethau. Fe wnaethon ni ddiweddaru'r cynllun yn 2024 i'n cadw ar y llwybr iawn.

# Cyfeiriadedd rhywiol a rhyw




**Cyfeiriadedd rhywiol** ydy pwy rydych chi'n cael eich denu ato, er enghraifft dynion, menywod neu'r ddau.



Rydyn ni eisisau i Gymru fod y wlad fwyaf cyfeillgar i **LGBTQ+** yn Ewrop.

Mae **LGBTQ+** yn sefyll am Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsryweddol, Queer a grwpiau eraill.

Mae hon yn gymuned o bobl sy'n rhannu profiadau oherwydd pwy maen nhw'n ei garu a phwy ydyn nhw.




Mae gennym ni gynllun o'r enw Cynllun Gweithredu LHDTQ+ i Gymru.



Mae'r cynllun yma yn dangos beth fyddwn yn ei wneud i wneud bywyd yn deg i gymunedau **LHDTQ+**. Ein nod ydy cyflawni hyn erbyn 2026.

# Hawliau Dynol




Yn 2021, fe wnaethon ni rannu cynllun i ddiogelu cydraddoldeb a hawliau dynol: [Adroddiad ymchwil Cryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru: Ymateb Llywodraeth Cymru]




Rydyn ni'n gweithio ar ddeddfau newydd. Rydyn ni'n creu ffordd o edrych ar sut mae ein gweithredoedd yn effeithio ar hawliau dynol.



Rydyn ni hefyd yn bwriadu helpu mwy o bobl i wybod am eu hawliau dynol.

# Offer i helpu i gyflawni ein nodau




Fe fyddwn ni’n defnyddio’r offer sydd gennym ni i gefnogi cydraddoldeb a hawliau dynol. Yr offer yma ydy:

## Cyllid




Rydyn ni’n edrych ar sut i wneud cyllid yn haws i’w gael. Yn enwedig ar gyfer elusennau, grwpiau gwirfoddol a sefydliadau sydd ddim yn gweithio i wneud arian.



Rydyn ni hefyd yn meddwl am sut i wneud yn siŵr bod ein cyllidebau a’n grantiau yn cefnogi cydraddoldeb a hawliau dynol.

# Dod o hyd i ffyrdd gwell o weithio



Rydyn ni’n gwella sut rydyn ni’n gweithio i fod yn fwy cyfrifol a chael canlyniadau gwell.



Fe fyddwn ni’n cefnogi arweinwyr sy’n gweithio ar gydraddoldeb a chynnwys pawb.



Rydyn ni eisiau staff o wahanol gefndiroedd, ac mae gennym ni gynllun i wneud hyn: Strategaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant y gweithlu Llywodraeth Cymru: 2021 i 2026

# Deddfau




Rydyn ni'n gweithio i gynnwys hawliau'r Cenhedloedd Unedig yng nghyfraith Cymru.





Mae'r Cenhedloedd Unedig yn llywodraethau gwahanol mewn gwledydd gwahanol sy'n gweithio gyda'i gilydd.



Mae ein llywodraethau wedi cytuno i ddilyn yr hawliau mae'r Cenhedloedd Unedig wedi eu gosod. I wneud y byd yn lle gwell.




Rydyn ni eisiau mynd â hyn ymhellach a gwneud yn siŵr bod ein deddfau ein hunain yn cynnwys yr hawliau yma yn llawn. Amddiffyn pobl anabl a menywod.




Fe fyddwn ni'n dilyn deddfau'r DU a Chymru i amddiffyn hawliau dynol, fel:

- **Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED)**

  Dyma reol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n meddwl bod yn rhaid iddyn nhw ddilyn Deddf Cydraddoldeb 2010. A meddwl am sut mae eu polisïau a'u penderfyniadau yn effeithio ar bobl.

- **Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru**

  Yng Nghymru, mae rheolau ychwanegol i helpu gwasanaethau cyhoeddus i ddilyn Deddf Cydraddoldeb 2010. Fe fydd y rheolau yma yn helpu i wneud yn siŵr bod cydraddoldeb yn rhan o waith bob dydd yng Nghymru.



Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr ein bod yn dilyn y **Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol** yn iawn. Mae'r ddeddf yma yn dweud bod rhaid i wasanaethau cyhoeddus feddwl am sut fyddai eu penderfyniadau yn gallu effeithio ar wahanol grwpiau o bobl.

# Asesiadau effaith



Mae **Asesiadau Effaith** yn edrych ar sut mae ein gwaith yn effeithio ar wahanol grwpiau o bobl.



Rydyn ni'n gweithio i wneud gwell asesiadau effaith cydraddoldeb a hawliau dynol.



Fe fyddwn ni'n gwella sut rydyn ni'n meddwl am wahanol fathau o rwystrau y mae pobl yn eu hwynebu. Fe fyddwn ni'n dweud beth fyddwn ni'n ei wneud i gael gwared ar neu leihau'r rhwystrau hynny.

## Meddwl am gydraddoldeb a hawliau dynol ym mhopeth rydyn ni'n ei wneud



Fe fyddwn ni'n hyfforddi pobl i wneud yn siŵr eu bod yn deall ein **Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol**.



Fe fyddwn ni'n chwilio am ffyrdd o gynnwys cydraddoldeb a hawliau dynol yn ein systemau presennol.



Fe fyddwn ni'n annog syniadau newydd.

# Codi ymwybyddiaeth



Rydyn ni'n chwilio am ffyrdd gwell o weithio gyda grwpiau eraill a chodi ymwybyddiaeth.



Fe fyddwn ni'n adolygu pa mor dda mae grwpiau yn gweithio gyda gwahanol gymunedau.



Fe fyddwn ni'n dilyn y rheolau yn y [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](). Mae'r ddeddf yma yn ymwneud â gwneud bywyd yng Nghymru yn well i bobl, nawr ac yn y dyfodol.

# Cydweithio



Rydyn ni'n gweithio gyda gwahanol grwpiau yng Nghymru a gwledydd eraill.



Rydyn ni'n cyfarfod gyda grwpiau cydraddoldeb a hawliau dynol.



Rydyn ni'n chwilio am ffyrdd o weithio'n well gyda llywodraethau eraill a rhannu syniadau.



Fe fyddwn ni'n edrych ar sut rydyn ni'n defnyddio rhwydweithiau ac yn dysgu oddi wrth eraill.

# Casglu gwybodaeth




Fe fyddwn ni'n casglu ac yn rhannu gwybodaeth am grwpiau cydraddoldeb yng Nghymru.



Rydyn ni eisiau gwella sut rydyn ni'n mesur ac yn edrych ar sut mae ein cynlluniau yn gwneud.

# Edrych ar ein gwaith




Rhaid i ni adrodd bob blwyddyn ar ein gwaith ar gydraddoldeb a hawliau dynol. Fe fyddwn ni’n ysgrifennu adroddiad bob blwyddyn.




Fe fydd yr adroddiadau yma yn cynnwys diweddariadau ar ein Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol.




Dros amser, fe fyddwn ni’n uno ein gwahanol gynlluniau i fesur ein gwaith. Fe fydd hyn yn ein helpu i weld beth sydd wedi newid.



Fe fydd yn dangos sut rydyn ni’n cwrdd â’r nodau yn y cynllun yma. Fe fydd yn ein helpu i wneud penderfyniadau gwell yn y dyfodol.



Fe fyddwn ni’n gwrando ar brofiadau pobl.




Fe fyddwn ni’n gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu siarad os bydd pethau’n mynd o’i le.




Fe fyddwn ni’n gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod eu hawliau. A gwybod beth i’w wneud os ydyn nhw’n cael eu trin yn annheg.



Mae grŵp o’r enw Grŵp Cynghori Hawliau Dynol yn edrych ar ein gwaith yn rheolaidd.




Rydyn ni hefyd yn rhoi diweddariadau i’r Cenhedloedd Unedig a Chyngor Ewrop.



Mae’r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol hefyd yn olrhain ein gwaith.

# Geiriau anodd

## Casineb

Mae casineb yn meddwl cael eich trin yn wael oherwydd bod pobl yn meddwl eich bod chi'n wahanol. Er enghraifft, oherwydd anabledd neu hil.

## Cyfeiriadedd rhywiol

Cyfeiriadedd rhywiol ydy pwy rydych chi'n cael eich denu ato, er enghraifft dynion, menywod neu'r ddau.

## Gwahaniaethu

Gwahaniaethu ydy pan fyddwch chi'n cael eich trin yn wael neu'n annheg oherwydd pethau fel eich rhyw, hil, crefydd, anabledd neu hunaniaeth rywiol.

## LGBTQ+

Mae LGBTQ + yn sefyll am Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsryweddol, Queer a grwpiau eraill.

Mae hon yn gymuned o bobl sy'n rhannu profiadau oherwydd pwy maen nhw'n ei garu a phwy ydyn nhw.